

Arolygiad AGIC 19 Gorffennaf 2014 – Cynllun Gweithredu

Eitem	Gweithred	I'w wneud gan	Cynnydd hyd yn hyn	Dyddiad cwblhau'r weithred
Gweithred 1: Cynnal a chadw paent yn y wardiau	- Asesiad o'r cyflwr i'w gynnal a'i ddiweddarau ar gyfer pob ystafell wely ac ystafell ymolchi unigol i gleifion; - Staff wardiau a staff cadw tŷ i dynnu sylw at y gwaith adfer a'r gwaith brys sydd ei angen, gan gyflwyno cais am waith cynnal a chadw; - Caiff y rhaglen adnewyddu ei dogfennu a'i rhoi ar waith.	Rheolwr Risg Cyfarwyddwr yr Ysbyty	- Cynhelir asesiad o'r cyflwr ar gyfer pob ystafell i gleifion ar hyn o bryd - Mae staff wardiau a staff cadw tŷ yn cyflwyno ceisiadau cynnal a chadw ar hyn o bryd i dynnu sylw at y gwaith adfer sydd ei angen - Mae asesiadau o'r cyflwr yn goleuo'r rhaglen adnewyddu arfaethedig	Parhaus Parhaus
Gweithred 2: Cyn ailaddurno Theatr 2, cynnal y gwaith trwsio a/neu gael pethau newydd yn unol â'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad	- Adnewyddu Theatr 2 - Gosod goleuadau newydd yn Ardal Sgwrio Theatr 2	Rheolwr Risg Cyfarwyddwr yr Ysbyty Adran Cynnal a Chadw	- Dyfnbris i adnewyddu Theatr 2 yn llawn, gan gynnwys ailaddurno, gosod llawr a drysau newydd a sinc a thapiau newydd yn yr ardal sgwrio - Amserlenni adnewyddu Theatr 2 - Uwchraddiwyd y goleuadau yn Ardal Sgwrio 2 gan osod goleuadau LED	22.07.2014
Gweithred 3: Rhoi sylw i'r gorchudd llawr diffygiol yn yr ystafell newid i fenywod	Trwsio'r mân ddiffygion yn y llawr yn Ystafell Newid Menywod y Theatr	Adran Cynnal a Chadw	Trefnwyd y gwaith ar gyfer 26 a 27 Awst 2014.	27.08.2014
Gweithred 4: Anfon ymlaen gopi o'r dystysgrif gwifrau trydan pan gaiff ei derbyn.	Ar ôl cwblhau gweithredoedd y Prawf Gwifrau Sefydlog Blyneddol, anfon copi o'r dystysgrif ymlaen at AGIC.	Adran Cynnal a Chadw	Cwblhawyd y gwaith uwchraddio ar 9 a 10 Awst 2014 – yn disgwyl tystysgrif gan y contractwr	

Arolygiad AGIC 19 Gorffennaf 2014 – Cynllun Gweithredu

Argymhellion Arfer Da

Eitem	Gweithred	I'w wneud gan	Cynnydd hyd yn hyd	Dyddiad cwblhau'r weithred
Argymhelliad Arfer Da 1: Argymhellir y dylid darparu hyfforddiant mewn rheoli meddyginiaethau yn flynyddol i bob aelod o staff sydd â rhan mewn rheoli meddyginiaethau	- Pob staff sydd â rhan mewn rheoli meddyginiaethau i gwblhau modiwl e-ddysgu ar Gyffuriau dan Reolaeth trwy Access Academy; - Ymchwilio ac adnabod modiwl e-ddysgu ar gyfer rheoli meddyginiaethau a fydd ar gael ar Access Academy	Pennaeth Gwasanaethau Clinigol Pennaeth Gwasanaethau Clinigol	- Mae 18 o staff wedi cwblhau modiwl e-ddysgu ar Gyffuriau dan Reolaeth; Eitem ar yr agenda yn y cyfarfod Effeithiolrwydd Clinigol nesaf - Pennaeth Gwasanaethau Clinigol mewn trafodaethau â Thîm y Pencadlys ynghylch y posibilrwydd o gael modiwl e-ddysgu ar reoli meddyginiaethau.	Parhaus
Argymhelliad Arfer Da 2: Mae angen llofnod ar gofnodion cleifion gan bob aelod o staff sydd â rhan mewn trosglwyddo gofal rhwng adrannau.	Hyn i'w drafod ym mhob un o gyfarfodydd yr adrannau clinigol i sicrhau cydymffurfiaid llawn.	Pob Pennaeth Adran Glinigol	Dim cynnydd hyd yn hyn.	Parhaus
Argymhelliad Arfer Da 3: Argymhellir bod mynegai'n cael ei ddatblygu er gwybodaeth i'r staff	Rhoi system ar waith mewn ffeiliau personél gyda mynegai	Rheolwr Adnoddau Dynol	Rhoddwyd system ar waith gyda ffeil newydd sy'n cynnwys mynegai ar gyfer ffeiliau personél	18 Awst 2014
Argymhelliad Arfer Da 4: Gellid gwella gwybodaeth am y gweithdrefnau a wneir ar gyfer plant trwy ddarparu gwybodaeth sy'n addas i'w hoed mewn amrywiol fformatau.	Darparu gwybodaeth sy'n addas i oed plant mewn amrywiol fformatau	Nyrs Glinigol Arbenigol – Pediatreg	Cynhelir ymchwiliad ac asesiad o wybodaeth sy'n addas i oed plant mewn amrywiol fformatau, ynglŷn â llawdriniaethau.	Parhaus